NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ivosidenib i drin cholangicarcinoma datblygedig gyda mwtadiad IDH1 R132 ar ôl 1 driniaeth systemig neu fwy

31 Ionawr 2024

Mae ivosidenib (Tibsovo) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer cholangiocarcinoma datblygedig yn lleol neu fetastatig (canser dwythell y bustl) gyda mwtadiad IDH1 R132 mewn oedolion ar ôl 1 driniaeth systemig neu fwy. Mae triniaethau systemig yn gweithio trwy'r corff cyfan. Gallant gynnwys pigiadau, trwythiadau neu feddyginiaethau a gymerir drwy'r geg.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar ganser dwythell y bustl (cholangiocarcinoma) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- AMMF The Cholangiocarcinoma Charity, 01279 661479, info@ammf.org.uk
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9506-6